

Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 25 Mai 2017 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 19 Mai 2017.

Yn

bresennol: Monica Walsh (Arglwydd Faer ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2016-2017 yn y Gadair)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Bale, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Congreve, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Caerhirfryn, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Molik, Morgan, Murphy, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

***Min Rhif: 6 Diwygiwyd yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 29 Mehefin 2017.
Mae'r Diwygiad yn ymddangos mewn llythrennau italig trwm.***

1 : MUNUD O DAWELWCH

Arena Manceinion 22 Mai 2017

Cynhaliwyd munud o dawelwch i gofio am y sawl a fu farw yn y digwyddiad yn Arena Manceinion ar 22 Mai 2017.

Siaradodd Arweinwyr Grŵp ac Aelodau i fyfyrion am y bywydau a gollwyd, y sawl a anafwyd yn ddifrifol a'r cymorth a roddwyd gan y gwasanaethau brys.

Dywedodd yr Arglwydd Faer iddi ysgrifennu at y Maer a phobl Manceinion i fynegi sympathi dwfn i'r sawl a effeithiwyd gan hyn.

Rhodri Morgan

Cynhaliwyd munud o dawelwch i Rhodri Morgan, cyn-AS Gorllewin Caerdydd a Phrif Weinidog Cymru a fu farw'n ddisymwth ar 17 Mai 2017.

Talodd Arweinwyr Grŵp ac Aelodau deyrnged i gyfraniadau Rhodri i fywyd a gwleidyddiaeth Cymru a Chaerdydd.

Dywedodd yr Arglwydd Faer iddi ysgrifennu at Julie Morgan a'i theulu i fynegi cydymdeimlad yr Aelodau a'r Cyngor am eu colled.

2 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEBAU

Nid oedd ymddiheuriadau i'r cyfarfod hwn.

3 : DATGAN BUDDIANNAU

Yn unol â Chod Ymarfer yr Aelodau, datganodd yr holl Gynghorwyr fuddiant personol yn Eitem 16 Taliadau Cydnabyddiaeth a Lwfansau Aelodau 2017/18.

4 : ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER 2017/18

Cafodd y Cyngor enwebiadau ar gyfer Arglwydd Faer a Chadeirydd y Cyngor ar gyfer 2017- 2018.

Cynigiodd y Cynghorydd Huw Thomas y Cynghorydd Bob Derbyshire ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Adrian Robson.

Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill.

PENDERFYNWYD yr etholir y Cynghorydd Bob Derbyshire yn Arglwydd Faer a Chadeirydd dros Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn 2017 – 2018.

Arwisgodd y Cynghorydd Monica Walsh Wir Anrhydeddus Arglwydd Faer Dinas a Sir Caerdydd, y Cynghorydd Bob Derbyshire â chadwyni'r swydd.

(Cafwyd cymeradwyaeth gan yr Aelodau)

Bu'n bleser i'r Arglwydd Faer, y Cynghorydd Sir Bob Derbyshire, arwisgo'r Arglwydd Faeres, Mrs Caroline Derbyshire, Harvey â'i chadwyn swydd.

5 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Siaradodd yr Arglwydd Faer a Chadeirydd y Cyngor gerbron y Cyngor ar ôl ei ethol yn 113eg Arglwydd Faer Dinas a Sir Caerdydd. Roedd yn anrhydedd ac yn ddilêit gael ei ethol diolchodd i'r Cynghorydd Huw Thomas a'r Cynghorydd Adrian Robson am eu geiriau caredig yn ei enwebu, ei deulu a'i ffrindiau a nifer o'i gydweithwyr am eu cefnogaeth.

Cydnabu'r Arglwydd Faer y disgwyliadau uchel sy'n dod â rôl y prif ddinesydd a gyda chymorth ei wraig Caroline yr Arglwydd Faeres, y Dirprwy Arglwydd Faer – y Cynghorydd Daniel De'Ath a'r Ddirprwy Arglwydd Faeres Rebecca Crump, teulu, ffrindiau a chydweithwyr roedd yn edrych ymlaen at yr her a chael cymorth gwych yn y rôl bwysig hon. .

Elusennau'r Arglwydd Faer i 2017-2018 oedd yr RSPB a Bug Life, Fferm Y Fforest.

Diolchodd yr Arglwydd Faer ar ran ei gydweithwyr yn y cyngor, pobl Caerdydd a'r sawl sy'n cael budd o waith elusennol y cyn-Arglwydd Faer a diolchodd Monica a Maria am fod yn genhadon gwych i'n prifddinas.

(Cafwyd cymeradwyaeth gan yr Aelodau)

6 : PENODI DIRPRWY GADEIRYDD YN CYNGOR AR GYFER 2017/18

Cafodd y Cyngor enwebiadau ar gyfer y Dirprwy Arglwydd Faer a'r Cadeirydd.

Cynigiodd y Cynghorydd Joe Boyle y Cynghorydd Dan De'Ath fel Dirprwy arglwydd Faer ac eiliwyd hyn yn ffurfiol gan y Cynghorydd Neil McEvoy.

Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill.

PENDERFYNWYD yr etholir y Cynghorydd Dan De'Ath yn Ddirprwy Arglwydd Faer a Dirprwy Gadeirydd dros Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn 2017 – 2018.

Bu i'r Arglwydd Faer arwisgo Dirprwy Arglwydd Faer Dinas a Sir Caerdydd, y Cynghorydd Dan De'Ath, gyda chadwyni'r swydd.

Bu i'r Arglwydd Faer arwisgo'r Dirprwy Arglwydd Faer, Ms Rebecca Crump, â'i chadwyn swydd.

Gwahoddodd y Prif Weithredwr yr Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer i arwyddo'r Datganiadau Derbynn.

(Bu i'r Aelodau ddangos eu gwerthfawrogiad yn y ffordd addas).

Dilynai pleidlais o ddiolch gan Huw Thomas, Arweinydd y Grŵp Llafur i'r cyn-Arglwydd Faer, Monica Walsh, a chyflwynodd Monica Walsh a Maria Harvey â bathodynau'r swydd i nodi eu blwyddyn o wasanaeth. Cydnabu'r Cynghorydd Thomas hefyd waith y Cynghorydd Georgina Phillips a'r Dirprwy Arglwydd Faer Consort Len am eu cyfraniad sylweddol fel cenhadon dros Gaerdydd yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Cydnabu pob Arweinydd Grŵp Plaid waith y cyn-Arglwydd Faer, ei gwaith wrth godi dros £100,000 i Ymchwil Canser Cymru, a dymuna'r gorau iddi yn y dyfodol.

Ymatebodd Monica Walsh a chydabu'r cymorth a gawsai dros ei blwyddyn; y digwyddiadau a'r cynrychiolwyr cymunedol a phobl Caerdydd a De Cymru a gyfarfu dros ei blwyddyn; a'r cymorth a roddwyd i'w gwaith codi arian elusennol. Yn benodol, diolchodd i'r Cynghorydd Dilwar Ali a oedd wedi codi dros £7,000 gyda Walk the Wall yn Tsieina yn gynharach fis yma.

7 : ETHOL AELODAU I GYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD

Cyflwynodd manylion Aelodau a etholwyd i Gyngor Sir Caerdydd ar 4 Mai 2017, er gwybodaeth.

Llongyfarchodd yr Arglwydd Faer y sawl a oedd yn llwyddiannus yn ystod yr etholiadau diweddar a mynegodd werthfawrogiad y Cyngor o'r gwaith a gynhaliwyd

gan yr Aelodau hynny nad oeddent wedi llwyddo cael eu hail-ethol i'r Cyngor a'r Aelodau nad ail-safodd.

8 : YMGYMERIAD CAERDYDD

Gofynnwyd i'r holl Aelodau Etholedig lofnodi Ymrwymiad Caerdydd a gofynnwyd i'r Aelodau ardystio'u hymrwymiad i Ymrwymiad Caerdydd yn y cyfarfod.

CYFLAWNWYD – Pob aelod yn ardystio a llofnodi Ymrwymiad Caerdydd.

9 : ETHOL ARWEINYDD Y CYNGOR AC AELODAU'R CABINET

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau ar gyfer y Ariweinydd.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sarah Merry ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Bernie Bowen-Thomson i'r Cynghorydd Huw Thomas gael ei ethol yn Arweinydd y Cyngor Sir.

CYFLAWNWYD – Ethol y Cynghorydd Huw Thomas yn Arweinydd y Cyngor Sir.

10 : ETHOL AELODAU CABINET

Cyflwynodd yr Arweinydd ei enwebiadau i'r Cabinet, a eiliwyd gan y Cynghorydd Bernie-Bowen Thomson.

PENDERFYNWYD cymeradwyo ethol yr Aelodau Cabinet canlynol: -

- Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth, Sgiliau - y Cynghorydd Sarah Merry;
- Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd - y Cynghorydd Graham Hinchey;
- Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgyrchu a'r Amgylchedd – y Cynghorydd Michael Michael;
- Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden – y Cynghorydd Peter Bradbury;
- Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad – y Cynghorydd Christopher Weaver;
- Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau – y Cynghorydd Lynda Thorne;
- Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles - y Cynghorydd Susan Elsmore;

Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth – y Cynghorydd Caro Wild.

11 : CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD

Croesawodd yr Arweinydd, a hefyd longyfarch, Aelodau hen a newydd, a diolchodd i'r sawl a ymddeolodd nad oeddent wedi dychwelyd ar ôl yr etholiad am eu cyfraniadau cadarnhaol ac arwyddocaol. Rhoddodd hefyd deyrnged i'r cyn-Arweinwyr y Cynghorydd Bale, y Cynghorydd Walker a'r cyn-Gynghorydd Clark.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at ddigwyddiadau trasig Manceinion, a oedd yn ein hatgoffa o bwysigrwydd gwerthoedd rhyddid, goddefgarwch a democratiaeth. Siaradodd yr Arweinydd am gyfiawnder cymdeithasol, cyfle cyfartal, a phwysigrwydd i bob un o

ddinasyddion Caerdydd gael cyfle i gyfrannu at fywyd yng Nghaerdydd, a'r ddyheadau i gyflawni'r gwerthoedd hyn.

Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor ar drefniadau ar gyfer Ffeinal Cynghrair Y Pencampwyr oedd i ddod yn sgîl digwyddiadau diweddar a thrafodaethau â Heddlu De Cymru, timau gweithredol yn cefnogi'r digwyddiad. Roedd yn ddigwyddiad gwych ac yn gyfle i Gaerdydd a'r Rhanbarth.

12 : PWYLLGOR CYNLLUNIO - RHEOLIADAU NEWYDD

Cafodd y Cyngor wybod am ddeddfwriaeth newydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran y Pwyllgor Cynllunio ac argymhellodd ddiwygiadau angenrheidiol i Reolau Gweithdrefnau'r Pwyllgor Cynllunio.

Cynigodd y Cynghorydd Caro Wild yr adroddiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Keith Jones.

PENDERFYNWYD –

1. nodi darpariaethau'r is-ddeddfwriaeth newydd o ran y Pwyllgorau Cynllunio a'u mabwysiadu;
2. cymeradwyo diwygiadau gofynnol i Reolau Gweithdrefnau'r Pwyllgor Cynllunio fel y'u nodir yn yr adroddiad;

cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i wneud y diwygiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad.

13 : SEFYDLU PWYLLGORAU'R CYNGOR AR GYFER 2017/18

Mae'r Cyfansoddiad yn nodi y bydd y Cyngor, yn ei Gyfarfod Blynyddol, yn penderfynu ar unrhyw ddiwygiadau i'w bwyllgorau sefydledig ar gyfer y flwyddyn drefol, maint a chylch gorchwyl y pwyllgorau hynny.

PENDERFYNWYD – Y byddai'r Cyngor yn sefydlu Pwyllgorau Cyngor; eu maint yn unig â Thabl A; a chylch gorchwyl pob Pwyllgor, fel y'i nodir yn Atodiad A i'r adroddiad i'w gymeradwyo i Flwyddyn Drefol 2017 – 2018.

14 : SEFYDLU PWYLLGORAU CRAFFU AR GYFER 2017/18

Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried argymhellion Pwyllgor Y Cyfansoddiad 2 Mawrth 2017 ar fodel yn y dyfodol ar gyfer craffu. Dywedodd yr Arglwydd Faer fod diwygiad i'r adroddiad yn unol â Rheol Gweithdrefn y Cyngor 24A. Mae'r diwygiad wedi'i gynnwys ar daflen y diwygiad.

Cynigiodd Cynghorydd De'Ath yr adroddiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Gordon.

Cynigiodd y Cynghorydd Chris Weaver y diwygiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Bernie Bowen-Thomson.

Ar ôl trafodaeth ar yr eitem cynhaliodd yr Arglwydd Faer bleidlais ar y diwygiad.

PASIWYD y Diwygiad.

PENDERFYNWYD –

1. y Cyngor i gytuno i gadw'r strwythur craff pum pwyllgor presennol ynghyd â'u cylchoedd gorchwyl ar gyfer blwyddyn drefol 2017-18;
2. Cytuno ar Aelodaeth pwyllgorau Craffu'n cynnwys naw Aelod Etholedig yr un;
3. annog yr holl Aelodau Etholedig Anweithredol i gyfrannu at Graffu, fel aelodau pwyllgor a/neu aelodau ymholiadau gorchwyl a gorffen.
Hyd at naw Aelod i fod yn rhan o ymholiadau gorchwyl a gorffen.

15 : DYRANNU SEDDAU AC ENWEBU AELODAU I BWYLLGORAU

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo Dyrannu Seddi ar Bwyllgorau Sefydledig a chael enwebiadau ar gyfer grwpiau gwleidyddol i'r seddi.

Cafwyd enwebiadau'n unol â dymuniadau'r Grwpiau Plaid ar y daflen diwygiadau, a ddosbarthwyd i'r Siambr. Rhoddodd yr Arglwydd Faer wybod, ers cyfarfod Chwipiaid y Grwpiau Plaid ac argraffu'r daflen diwygiadau fod Grŵp Plaid wedi dweud ei fod am gymryd y seddi a ddyrannwyd iddo ar y Pwyllgorau.

PENDERFYNWYD –

1. cymeradwywyd y 'trefniadau amgen' i ddyrannu seddi ar bob Pwyllgor i grwpiau gwleidyddol yn unol ag Atodiad A, yn amodol â thrafodaethau pellach â Chwipiaid Grwpiau Plaid;
2. cymeradwyo'r enwebiadau a gafodd gan y grwpiau gwleidyddol i'r seddi a ddyrannwyd i bob grŵp a'r penodiadau cyfatebol yn amodol ar drafodaethau pellach â'r Prif Chwipiaid;

gofyn i'r Swyddog Monitro adrodd manylion yr holl benodiadau i'r pwyllgorau wrth y Cyngor yn ei gyfarfod nesaf, er gwybodaeth, a gofyn iddo ystyried unrhyw enwebiadau ychwanegol neu newidiadau ar ôl y cyfarfod hwn;

16 : ETHOL CADEIRYDDION A DIRPRWY GADEIRYDDION PWYLLGORAU

Gofynnwyd i'r Cyngor ethol Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion y Pwyllgorau'n unol â dymuniadau'r Grwpiau Plaid. Ymddangosai enwebiadau'r Grwpiau Plaid ar y daflen diwygiadau. Ni heriwyd unrhyw Gadeiryddion.

PENDERFYNWYD –

- (1) cymeradwyo'r enwebiadau a gafwyd i'r Cadeiryddion a'r Dirprwy Gadeiryddion (fel y bo'n briodol) i'r Pwyllgorau Rheoleiddiol ac Eraill fel a ganlyn:

	Pwyllgor	Cadeirydd / Dirprwy
(1).	Pwyllgor Trwyddedu/ Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd Cadeirydd Dirprwy Gadeirydd	Jackie Parry Jim Murphy
(2)	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Cadeirydd	Mike Jones-Pritchard
(3).	Pwyllgor Cynllunio Cadeirydd Dirprwy Gadeirydd	Keith Jones Iona Gordon

- (2) cymeradwywyd dyraniadau cyfraddol Cadeiryddion Craffu fel y nodir ym mharagraff 4, Tabl A yr adroddiad;
- (3) yn amodol ar argymhelliad (2), y Cyngor i nodi penodiad Cadeiryddion Craffu'n unol â dymuniadau'r Grwpiau Plaid yn unol â Rhan 6 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

	Pwyllgor	Cadeirydd / Dirprwy
i.	Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc Cadeirydd	Lee Bridgeman
ii.	Pwyllgor Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion Cadeirydd	Mary McGarry
iii.	Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant Cadeirydd	Nigel Howells
iv.	Pwyllgor Craffu Amgylcheddol Cadeirydd	Ramesh Patel
v.	Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad	

	Cadeirydd	David Walker
--	-----------	--------------

17 : ENWEBU AELODAU I WASANAETHU AR GYRFF ALLANOL

Cafodd y Cyngor enwebiadau i'r gyrff allanol y mae angen enwebiadau ganddynt bob blwyddyn neu sydd eu hangen ar yr adeg hon er mwyn bodloni terfynau amser penodol. Roedd enwebiadau a gafwyd gan y Grwpiau Plaid wedi'u cynnwys ar y daflen diwygiadau.

O ran y Gymdeithas Llywodraeth Leol, cynigiwyd yr enwau diwygiedig canlynol: gan y Cynghorydd Bernie Bowen-Thomson ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ed Stubbs: -

Y Cynghorwyr Huw Thomas, Merry, Bale a Robson.

Gofynnodd y Cynghorydd Joe Carter i'r cynnig cychwynnol a oedd ar y diwygiad gael ei gynnig, gan ei fod yn unol â'r arfer. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Joe Boyle fel a ganlyn: -

Y Cynghorwyr Huw Thomas, Merry, Robson a Boyle.

Cymerodd yr Arglwydd Faer bleidlais ar yr enwebiadau i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol wrth iddynt ymddangos ar y daflen diwygiadau fel y'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Joe Carter.

COLLWYD y bleidlais.

Cymerodd yr Arglwydd Faer bleidlais ar y cynnig diwygiedig gan y Cynghorydd Bernie Bowen-Thomson ar yr enwebiadau diwygiedig i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.

ENILLWYD y bleidlais

PENDERFYNWYD –

1. a'u cymeradwyo - 1. y penodiadau canlynol i gyrff allanol wedi dod i law

Bwrdd Ardal Gwella Busnes Caerdydd (1 Aelod) - y Cynghorydd Huw Thomas

Bws Caerdydd (7 Aelod – 4 Llafur, 2 Geidwadwr ac 1 Democrat Rhyddfrydol)
Llafur – Cynghorwyr Cris Lay, Ramesh Patel, Elaine Simmons ac Ed Stubbs
(Cadeirydd)

Ceidwadwyr - Cynghorwyr Gavin Hill-John ac Adrian Robson
Democratiaid Rhyddfrydol – Y Cynghorydd Emma Sandrey

Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro (3 Aelod)
Llafur - Y Cynghorydd Iona Gordon

Ceidwadwyr - Y Cynghorydd Lyn Hudson

Cymdeithas Llywodraeth Leol (4 Aelod)
Llafur – Cynghorwyr Phil Bale, Sarah Merry a Huw Thomas
Ceidwadwyr – Cynghorydd Robson

Stadiwm Y Mileniwm Ccc
Llafur - Cynghorydd Huw Thomas

Bwrdd Llywodraethu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (1 Aelod)
Llafur - Cynghorydd Hinchey

Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
Llafur – Cynghorwyr Dilwar Ali, Heather Joyce a Peter Wong
Ceidwadwyr – Cynghorwyr Mile Phillips
Democratiaid Rhyddfrydol – Cynghorydd Dan Naughton

Panel Heddlu a Throsedd De Cymru (2 Aelod)
Llafur - Cynghorydd Bernie Bowen-Thomson
Ceidwadwyr – Cynghorydd Tim Davies

CLILC (8 Aelod)
Llafur – Cynghorwyr Peter Bradbury, Susan Elsmore, Russell Goodway, Sarah Merry, Michael Michael, Huw Thomas, Lynda Thorne a Chris Weaver

Bwrdd Gweithredol CLILC (1 Aelod) – Cynghorydd Huw Thomas

2. cytuno i ddirprwy awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Adnoddau) a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro i fwrw ymlaen â hysbysebu a phenodi i swyddi Cyfarwyddwr Anweithredol annibynnol a sefydlu Panel Penodi Aelodau â chydbwysedd gwleidyddol at ddiben penodi'r broses benodi (yn seiliedig ar dri Llafurwr; un Democrat Rhyddfrydol ac un Ceidwadwr).

18 : TÂL A LWFANS AELODAU 2017/18

Cafodd y Cyngor benderfyniad Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn rhoi manylion lefelau cyflog a lwfansau'r Aelodau sy'n daladwy yn 2017/18 gan gadarnhau pa faterion sydd i'w penderfynu gan y Cyngor.

PENDERFYNWYD –

1. nodi penderfyniadau PACaGA yn ei Adroddiad Blynyddol 2017, fel y nodir yn yr adroddiad;
2. nodi'r Cyflog Sylfaenol blynyddol o £13,400 yn daladwy i'r holl aelodau etholedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18;
3. cymeradwywyd gosod Cyflog Uwch Band 2, sy'n daladwy i holl Aelodau'r Cabinet (ac eithrio'r Arweinydd a'r Is Arweinydd) yn 2017/18 yn unol â thâl Lefel 1 (£32,100) fel y gosodwyd gan y Panel;

4. cymeradwyo gosod Cyflog Uwch Band 2017/18 sy'n daladwy i Gadeiryddion Pwyllgorau yn 2016/17 yn unol â thâl Lefel 1 (£22,000) fel y gosodwyd gan y Panel.
5. hyd at 19 swydd Cyflog Uwch i'w dyrannu ac yn daladwy yn 2017/18 fel a ganlyn:

Bandiau Cyfrifoldeb	Rôl(au)	Nifer y Swyddi Cyflog Uwch
Band 1	Yr Arweinydd	1
	Dirprwy Arweinydd	1
Band 2 (Lefel 1)	Aelodau eraill y Cabinet	8
Band 3 (Lefel 1)	Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu	5
	Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio	1
	Cadeirydd y Pwyllgorau Trwyddedu / Diogelu'r Cyhoedd	1
Band 4	Arweinydd yr wrthblaid fwyaf (Grŵp y Ceidwadwyr)	1
Band 5	Arweinydd Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol	1
Cyfanswm		19

6. cymeradwyo gosod y Cyflog Dinesig sy'n daladwy yn 2017/18 ar gyfer swyddi'r Pennaeth Dinesig/Arglwydd Faer (£24,100) a'r Dirprwy Bennaeth Dinesig/Dirprwy Arglwydd Faer (£18,100) ac yn unol â thaliadau Lefel 1 a ddisgrifir gan y Panel;

cytuno y dylid parhau i osod uchafswm tâl gwerth 10 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer ffioedd Aelodau wedi eu Cyd-ethol yn 2017-18.

Cafodd y Cyngor y Diwygiadau a gynigiwyd i'r Cyfansoddiad i Reolau Gweithdrefnau'r Cyngor gan Bwyllgor y Cyfansoddiad 2 Mawrth 2017.

Cynigiodd Cynghorydd De'Ath yr adroddiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Gordon.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn y Cyngor 25(a) (iv), cynigiodd y Cynghorydd Bowen-Thomson i'r adroddiad gael ei gyfeirio'n ôl at Bwyllgor y Cyfansoddiad i ganiatáu i'r Cyngor a Chynghorwyr newydd wneud penderfyniad ar y newidiadau a gynigiwyd.

Eiliwyd y Cynnig yn ddirybudd gan y Cynghorydd Rod McKerlich.

Cymerodd yr Arglwydd Faer bleidlais ar y cynnig i gyfeirio'n adroddiad yn ôl.

ENILLWYD y bleidlais

PENDERFYNWYD – I'r adroddiad gael ei gyfeirio'n ôl i'w ystyried gan Bwyllgor y Cyfansoddiad yn ei gyfarfod nesaf.

20 : CALENDR O GYFARFODYDD Y CYNGOR LLAWN AR GYFER 2017/18

Mae Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor yn darparu i'r Cyngor gymeradwyo rhaglen o gyfarfodydd arferol y Cyngor ym mhob blwyddyn drefol. Roedd amserlen o gyfarfodydd a drefnwyd at ddiwedd Awst 2017 wedi'i chynnwys ar y daflen diwygiadau.

Caiff amserlen lawn o gyfarfodydd i Flwyddyn Drefol 2017/18 ei chyflwyno yng nghyfarfod Mehefin y Cyngor, a fydd yn caniatáu i Gadeiryddion Pwyllgorau a benodir gan y Cyngor Blynyddol gael eu hymgynghori ar amllder ac amseroedd Pwyllgorau.

PENDERFYNWYD –

1. Calendr Interim cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgor Rheoleiddiol i fisoedd Mehefin ac Awst 2017 i'w nodi a chymeradwyo;
2. nodi canlyniad yr Arolwg Cyfarfodydd Amseru Aelodau, ac ystyried y wybodaeth hon wrth gwblhau rhaglen gyfansawdd cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgor yn 2017/18;

rhaglen o ddiwrnodau cyfarfod ar gyfer 2017 – 2018 a dyddiadau dangosol 2018 – 2019 i'w cyflwyno i'w hystyried yn y Cyngor ar 29 Mehefin 2017 ar ôl ymgynghori â Chadeiryddion etholedig Pwyllgorau.

21 : MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd.

(Daeth y cyfarfod i ben am 18.28)

